



Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

20.09.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
Dear Parent / Guardian,

Wythnos lawn dop arall! Mae'r Dosbarth Derbyn wedi bod yn mwynhau yn ardal Pencoed yn creu draenogod allan o frigau, mae blwyddyn 1 wedi mwynhau darllen a thrafod stori y 3 Mochyn Cas a'r Blaidd Caredig tra bod blwyddyn 2 wedi bod yn adeiladu tai 3D gyda deunyddiau naturiol. Uchafbwynt blwyddyn 3 oedd mynd ar helpa trychfilod tra bod blwyddyn 4 wedi bod yn creu graffiau am drychfilod. Archwilio coed Cwrt yr Insole bu blwyddyn 5 ac mae blwyddyn 6 wedi bod yn dysgu am garbon.

Another busy week! Reception class have been enjoying making hedgehogs out of sticks in Pencoed (our forest area), year 1 have been reading and enjoying the book, y 3 Mochyn Cas a'r Blaidd Caredig whilst year 2 have been making 3D houses out of natural material. Year 3's highlight was going on a bug hunt whilst year 4 have been looking at graphs. Year 5 have been exploring the trees of Insole Court whilst year 6 have been learning about carbon.


Cyd-destunau Dysgu

Contexts for Learning

Os oes gennych arbenigedd i gynnig yn unrhyw gyd-destun, bydden ni wrth ein boddau yn eich croesawu chi i'r ysgol

If you have any expertise to share within any context for learning, we would love to welcome you into school

| Dosbarth Derbyn | Blwyddyn 1 a 2 | Blwyddyn 3 a 4 | Blwyddyn 5 a 6 |
|------------------------|-------------------------|-----------------------|-----------------------|
| Waw, Dw i'n Arbennig! | Adeiladu Ty Bach, 1,2 3 | Cynefin | Ni yw y byd |



| | | | |
|-------------------|-------------------------------|---------|------------------|
| Waw, I'm Amazing! | Let's Build a House, 1,2,3 | Habitat | We are the world |
|-------------------|-------------------------------|---------|------------------|

Cyflwyniadau Dosbarth

Class Presentations

Diolch i rieni'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6 am ymuno gyda ni i dderbyn cyflwyniadau gan athrawon eich plant.

Os nad oeddech chi'n gallu ymuno gyda ni, mae'r cyflwyniadau a'r wybodaeth yn y dolenni isod:

Diolch to the Dosbarth Derbyn and Year 6 parents who joined us for presentations by the class teachers.

If you weren't able to join us, the links to the presentations are here:

| | |
|---------------------------------|----------------------------|
| Dosbarth Derbyn | Blwyddyn 6 |
|---------------------------------|----------------------------|

Drysau Agored Llandaf

Llandaf Open Doors

Braf iawn oedd agor ein drysau fel rhan o weithgarwch Drysau Agored Llandaf heddiw. Er mawr syndod, daeth 65 o'r gymuned i glywed detholiad o ganeuon gan ein disgyblion (blwyddyn 1-6) cyn mwynhau paned a chlonc. Diolch i bawb yn deuluoedd, teuluoedd estynedig, cyn deuluoedd neu gymdogion a thrigolion Llandaf am fynychu!

It was a pleasure to open our doors today to the community as part of the Open Doors Festival in Llandaf. Our visitors (all 65 of them!) enjoyed hearing some of our favourite songs performed by the pupils (year 1 - 6) before a cuppa and a chat. Diolch to the families, extended families, past families, neighbours and residents of Llandaf for coming.

Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth - Blwyddyn 1 a 2

Show Racism the Red Card - Year 1 and 2

Fel rhan o'n blaenoriaeth i hyrwyddo amrywiaeth ymhellach yn yr ysgol, gwnaethon ni groesawu Lauren a Tanya i gynnal gweithdy gwrth-hiliaeth gyda disgyblion blwyddyn 1 a 2. Trafododd y disgyblion yn wych ac yn aeddfed ac fe wnaethon nhw ddysgu llawer yn ystod y gweithdy.

As part of our priority to develop diversity further in the school, we welcomed Lauren and Tanya from Show Racism the Red Card to years 1 and 2. During the workshop, the pupils discussed excellently and maturely.

Crwydro'r Ardal Leol

Local Area Visits

Yr wythnos hon, mae blwyddyn 1 a 2 a blynyddoedd 5 a 6 wedi mwynhau crwydro a dysgu yn ein milltir sgwâr. Mae blwyddyn 1 a 2 newydd gychwyn ar eu cyd-destun, Adeiladu Tŷ Bach, 1,2,3 felly beth well na mynd am dro o amgylch strydoedd Ysgol Pencae i sylwi ar y mathau o dai sydd yn ein cymdogaeth? Mae blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn archwilio coed yng Nghwrt Insole fel rhan o'u cyd-destun amgylcheddol, Ni yw y byd!

This week, years 1, 2 5 and 6 have enjoyed learning in our local area. Years 1 and 2 are learning about houses and buildings whilst studying the context, Adeiladu Ty Bach, 1,2,3 (Let's build a house, 1,2,3) s they enjoyed walking around the streets surrounding Ysgol Pencae to observe the houses. Ni yw y Byd (we are the world) is the context that years 5 and 6 are studying where they are looking at the environment and our responsibility to look after our world. They explored the trees at Insole Court

Gwibdeithiau

Trips

Mae'r ysgol yn brysur trefnu gwibdeithiau a phrofiadau ar gyfer eich plant. Mae hyn yn rhan allweddol o'r cwricwlwm ac yn dilyn adborth gennych chi deuluoedd, rydym yn ymwybodol o'ch cefnogaeth a'ch awydd i'r ysgol drefnu'r profiadau hyn. Mae costau tripiâu, yn arbennig trafndiaeth, wedi codi yn aruthrol ac er bod gan yr ysgol ychydig o arian yn ein coffrau i gefnogi'r costau hyn, nid yw'n ddi-derfyn ac mae costau o ddydd i ddydd yr ysgol hefyd yn mynd yn fwy drud.

Llynedd, gwnaeth yr ysgol golled o £2,000 ar dripiâu.

Felly, er mai gofyn am gyfraniad ydyn ni, gofynnwn yn garedig i chi os ydych chi mewn sefyllfa o gyfrannu eich bod yn gwneud hynny. **Wrth gwrs, mae'r ysgol yma i gefnogi unrhyw deulu sydd ddim yn gallu cyfrannu ac rydym yn eich annog i drafod hyn gyda ni er mwyn i ni chwilio am ffyrdd o gynorthwyo.** Peidiwch poeni, ni fydd unrhyw blentyn yn colli allan ar gyfle yn Ysgol Pencae.

The school is busy arranging trips and experiences for your children to enjoy. This is an integral part of the curriculum and when we ask for input from families, it is always shared and commented how important you find these opportunities for your children. School trips



costs, especially transport, has increased greatly and although we as a school have some money to support these costs, it's not endless and our day-to-day costs have also increased greatly.

Last year, we made a loss of £2,000 on school trips.

We ask for a contribution when arranging trips and we kindly ask you, if you're in a position to contribute that you please remember to do so. **Of course, the school is here to support any family who are not in a position to contribute and we kindly ask you to speak to us about this so that we can find ways of supporting you.** Rest assured, we will not let any child lose out on an experience at Ysgol Pencae.

CRhA

PTA

Bydd cyfarfod blynyddol CRhA **Nos Fawrth, 24ain o Fedi am 7.30yh** yn neuadd yr ysgol. Bydd gwin a chaws i'w mwynhau wrth i ni glywed am waith y GRhA, clywed beth sydd ar y gweill eleni ac wrth gwrs, cymdeithasu gyda'r rhieni newydd! Dewch i gefnogi!

The PTA AGM will be on **Tuesday, 24th of September at 7.30pm** in the school hall. There will be cheese and wine whilst we enjoy hearing about the work of the PTA, learn about what's planned for the year and of course, socialise with new parents. Please come and support!

Clybiau / Clubs

| | Dydd Llun Monday | Dydd Mercher Wednesday | Dydd Iau Thursday | Dydd Gwener Friday |
|----------------------|---|--|---|--|
| 12.45 - 13.15 | | | | <p><u>B13-6</u> Clwb Chwaraeon Urdd Urdd Sports Club</p> <p>Bydd angen archebu lle / you need to book a place</p> |
| 15.30 - 16.30 | <p><u>B13-6</u> Clwb Canu / Singing Club</p> <p><u>B15 - 6</u> Clwb Pêl-rwyd / Hoci Netball / Hockey Club</p> | <p><u>B13-6</u> Dancefit</p> <p>Bydd angen archebu lle / You need to book a place</p> | <p><u>B14 - 6</u> Clwb Pêl-droed / Rygbi Football / Rugby Club</p> | |



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



@pencae2



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851

| | | | | |
|--|--|--|--|--|
| | | | | |
|--|--|--|--|--|

Bydd pêl-rwyd B13 a 4 yn dechrau ar nosweithiau Mercher wedi hanner tymor. Diolch eto i Mrs Perkins am arwain rhain.

Year 3 and 4 Netball Club will begin on Wednesday evenings after half term. Diolch to Mrs Perkins for running these.

Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

| Mis Medi Sialens Siarter Iaith y Teulu <i>Language Charter Family Target</i> | Mis Medi Proc i'r Cof Diogelwch ar y We <i>Internet Safety Tip</i> | Mis Medi Hawliau Plant <i>Children's Rights</i> |
|---|--|---|
| Beth am gyfrif YN GYMRAEG sawl car o liwiau gwahanol rydych chi'n gweld wrth deithio yn y car. <i>How about counting IN WELSH how many cars in different colours you see on a journey.</i> | Mae'n bwysig cyfuno llythrennau, symbolau a rhifau mewn cyfrineiriau a'u cadw'n gyfrinachol. <i>It's important to combine letters, numbers and symbols in passwords and keep them confidential.</i> | Mae gan bawb hawl i addysg. <i>Everyone has a right to an education.</i> |

Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:

[Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form](#)

[Ffurflen Gwyliau / Holiday Form](#)

[Clwb Carco](#)



[Gwaith cartref / Home Work](#)

bit.ly/gwaithcartrefPC

DYDDIADUR YR YSGOL



SCHOOL DIARY

Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser
Here are key dates and more information will be shared nearer the time

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---------------------|--|
| 23.9.24 | BI6: Ceisiadau ysgol uwchradd yn agor <i>Secondary School applications open</i> |
| 24.9.24 | CRHA: Cyfarfod Blynyddol, Neuadd yr ysgol, 7.30pm PTA: AGM, School Hall 7.30pm |
| 25.9.24 | Diwrnod HMS / Inset Day |
| 26.9.24 | BI3 a 4: Trip i Gwlyptiroedd Casnewydd Trip to Newport Wetlands |
| 27.9.24 | BI6: Diwrnod Pontio yng Nglantaf. Mae angen pecyn bwyd. Transition Day in Glantaf. They need a packed lunch. |
| 8.10.24 | BI4 - 6: Rownd 1af Cogurdd Cogurdd, 1st Round |
| 11.10.24 | BI4 a 5: Jambori'r Urdd Urdd Jambori |
| 15.10.24 | Casgliad dillad Rags to Riches - helpwch yr ysgol i wneud arian trwy fydn trwy eich dillad a chael gwared o'r pethau dydych chi ddim bellach yn eu gwisgo. Dewch a nhw i'r ysgol ar y dyddiad yma a byddwn ni yn eu cyfrannu i gynllun Rags to Riches. <i>Rags to Riches Collection - help the school make money by having a clothes clear out, bring them to school on this date and we can donate them to Rags to Riches.</i> |
| 15.10.24 | Nosweithiau Rhieni ar-lein Online Parents Evening |
| 16.10.24 | Nosweithiau Rhieni wyneb yn wyneb Face to face Parents Evening |
| 18.10.24 | Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth - pawb i wisgo COCH Show Rasicm the Red card - Everyone to wear RED |
| 21.10.24 - 25.10.24 | BI6: Llangrannog |
| 28.10.24 - 1.11.24 | Hanner Tymor / Half Term |
| 18.11.24 | BI6: Gwyllo Sioe Ysgol Glantaf Watching Ysgol Glantaf's Show |
| 18.11.24 | BI6: Dyddiad Cau ceisiadau ysgol uwchradd |



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



@pencae2




www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851

| | |
|----------------------------------|---|
| | Deadline for Secondary School Applications |
| 3.12.24 5.12.24 | Sori wedi gorfod newid dyddiad / Sorry, we've had to change one date Derbyn, Blwyddyn 1 a 2: Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen Reception, year 1 and 2: Foundation Learning Christmas Show |
| 6.12.24 | Dros 7: ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan Over 7's: Christmas Service Practice at the Cathedral |
| 10.12.24 | Bl1 a 2: Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch Going to the theatre: Little Red Riding Hood |
| 18.12.24 | Bl3-6: Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb Cathedral Christmas Service - 9.30am |
| 20.12.24 | Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term 23.12.24 - 6.1.25: Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday |
| 6.1.25 | Diwrnod HMS / Inset Day |
| 7.1.25 | Disgyblion nôl yn yr ysgol Pupils back in school |
| 3.2.25 | Diwrnod HMS / Inset Day |
| 24.2.25 - 28.2.25 | Hanner Tymor / Half Term |
| 17.3.25 - 21.3.24 | Bl5: Gwersi Seiclo Cycling Lessons |
| 9.4.25 - 11.4.25 | Bl4: Maes y Fron Call of the Wild |
| 11.4.24 | Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term 14.4.25 - 25.4.25: Gwyliau Pasg / Easter Holiday |
| 26.5.25 - 30.5.25 | Hanner Tymor / Half Term |
| 2.6.24 - 3.6.24 | Bl3: Pentre Ifan a Chastell Henllys Pentre Ifan and Castell Henllys |
| 9.6.25 - 20.6.25 | Bl3: Gwersi Nofio <i>Swimming Lessons</i> |
| 18.7.25 | Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term 2.30pm: Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly |



21.7.25

Diwrnod HMS / Inset Day



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



[@pencae2](https://twitter.com/pencae2)



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851